Grace Darling: 1815–1841

Achub naw o bobl

Dewrder / dyfalbarhad

Fyddwch chi weithiau'n gweld injan dân neu ambiwlans yn mynd ar frys? Neu hyd yn oed yr hofrennydd felen yn hofran yn yr awyr? Mynd maen nhw i achub pobl sydd mewn angen. Efallai bod tŷ ar dân, neu ddamwain ar y ffordd neu fod rhywun wedi syrthio ar y mynydd neu mewn perygl ar y môr.

Os bydd rhywun mewn trybini ar y môr, yna bydd y bad achub yn cael ei lansio. Dyma hanes am ferch ifanc oedd yn byw gyda'i rhieni mewn goleudy.

Roedd y storm wedi cilio erbyn y bore ond roedd hi wedi bod yn chwythu'n enbyd drwy'r nos. Doedd Grace na'i rhieni ddim wedi cysgu ryw lawer drwy'r nos. Pan edrychodd Grace drwy'r ffenest yn y bore fe welai ddynion ar graig islaw. Yna fe welodd gwch wedi'i hyrddio yn erbyn y creigiau.

Gwaeddodd ar ei thad, "Dad, dowch yma ar frys, edrychwch, mae yna ddynion ar y graig acw."

"Wel ar fy ngwir," meddai'r tad, "mae'n amlwg eu bod nhw wedi dod allan o'r llong acw ar y creigiau."

"Nhad," meddai Grace, "mae'n rhaid i ni fynd allan rŵan i'w hachub nhw."

"Fedrwn ni ddim, Grace bach, mae'r gwynt yn rhy gryf ac mi fasa'n cwch bach ni yn cael ei hyrddio yn erbyn y creigiau," meddai'r tad.

"Ond mae'n rhaid i ni fynd neu mi fydd y bobl yna wedi boddi. Mae'n rhaid i ni fynd y munud yma," meddai Grace yn benderfynol. Doedd yna ddim troi arni. Er bod ei thad yn amheus iawn, mynd fu raid.

Roedd hi'n fore erchyll. Roedd y tonnau yn chwipio'r dŵr dros eu cwch rhwyfo a Grace yn dal yn dynn yn yr ochrau. O'r diwedd, dyma gyrraedd y graig. Roedd naw o bobl arni – wyth o ddynion ac un wraig. Doedd dim gobaith i gael y naw ar fwrdd y cwch. Doedd dim amdani ond mynd â rhai ohonyn nhw i ddechrau a dod yn ôl at y lleill.

Roedd yn waith anodd iawn. Roedd y tonnau yn taflu'r bobl yn ôl ar y graig. Ymhen ychydig, roedd pump ar fwrdd y cwch,

pedwar o ddynion ac un wraig. Ond roedd rhaid mynd yn ôl i achub y lleill. Roedd y cwch fel corcyn ar wyneb y tonnau. Am ran helaeth o'r bore bu Grace a'i thad wrthi'n brysur ac erbyn hanner dydd roedd y naw yn ddiogel yn y goleudy.

Ar ôl hynny bu Grace a'i mam yn brysur yn gwneud bwyd a diod cynnes iddyn nhw. Fe gawson nhw gysgu yn y goleudy y noson honno ac erbyn bore drannoeth roedd y storm wedi hen gilio.

"Y mae angen dyfalbarhad arnoch i gyflawni ewyllys Duw."

Hebreaid 10:36

O Dduw,
helpa fi i ddal ati bob amser,
hyd yn oed pan fo pethau'n anodd.
Amen.

Ydych chi'n credu bod Grace Darling yn ferch ddewr?
Beth petai hi a'i thad wedi boddi wrth fynd i achub y bobl ar y graig?

Grace Darling: 1815–1841